Teitl y Swydd: Maethegydd Datblygu Cynnyrch

Uned/Ysgol: Canolfan Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE / Ysgol Chwaraeon a Gwyddor Iechyd Caerdydd

Lleoliad: Campws Llandaf, Safleoedd Gweithgynhyrchu Partner Cwmni

Gradd: 6A/B

HERA: FIC26

**Prif bwrpas y rôl**

Y rôl yw cefnogi cyflawni arloesedd ar draws datblygu cynhyrchion bwyd a diod sy'n canolbwyntio ar faeth ac iechyd. Gyda ffocws ar Faeth ac Iechyd, bydd y rôl yn rhoi cefnogaeth i fusnesau gweithgynhyrchu bwyd a diod partner sy'n edrych ar ddatblygu ac ail-beiriannu cynhyrchion bwyd a diod ddiogel a chyfreithlon i gyrraedd targedau iechyd cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg. Darparu cefnogaeth i fusnesau yng Nghymru drwy brosiectau a ariennir gan Lywodraeth Cymru a thrwy fecanweithiau, prosesau a gofynion rheoli prosiectau ZERO2FIVE.

Mae'r rôl yn rhoi cyfle i drosglwyddo gwybodaeth a mentora i dîm y Ganolfan y Diwydiant Bwyd, gweithgynhyrchwyr bwyd a rhanddeiliaid yn ogystal â chadw i fyny â pholisïau iechyd, targedau maeth a mentrau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg.

I gyfrannu at ddatblygu cynnyrch bwyd a diod o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar faeth, gan fodloni gofynion diogelwch cynnyrch a chydymffurfiaeth gyfreithiol, mewn amgylchedd sector gweithgynhyrchu bwyd a diod ddeinamig.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Cydweithio â phartneriaid busnes gweithgynhyrchu Bwyd a Diod a thîm datblygu cynnyrch y ZERO2FIVE i ddylanwadu ar gynhyrchion bwyd a diod newydd ac wedi'u hail-beiriannu trwy osod briffiau gofynion maethol ar gyfer arfer gorau a/neu aliniad â thargedau a osodwyd gan y Llywodraeth, Manwerthwyr, neu randdeiliaid eraill.

- Gweithredu fel prif bwynt cyswllt maetheg ar gyfer adolgygu ryseitiau newydd, newid cynhwysion, cydweithredu gyda phartneriaid busnes a thîm ehangach ZERO2FIVE i asesu addasrwydd cynhyrchion a’u trosi i gynyddu cynhyrchiant.

- Cynnal asesiadau diagnostig, adolygu a chyfleu gwybodaeth am broffiliau maetholion, targedau maeth a gwybodaeth am faint dognau ar draws sawl categori cynnyrch i gynorthwyo gwelliant parhaus ar draws y sector.

- Cynnal gwybodaeth am gydymffurfiaeth â rheoliadau'r diwydiant, deddfwriaeth, canllawiau, codau ymarfer a safonau neu ofynion eraill sy'n ymwneud â maeth, un categori iechyd a chynnyrch.

- Cynnal a gweithredu mecanweithiau a gweithdrefnau i adolygu a rheoli data datblygu, gan gynnwys data maethol h.y. fesul 100g a data cynnyrch Cefn y Pecyn (BOP), ar draws ystod o gategorïau cynnyrch.

- Darparu cymorth ad hoc gydag ymholiadau cwsmeriaid, cynllunio ryseitiau, ac anghenion busnes eraill sy'n gysylltiedig â maeth gan gynnwys defnyddio atebion digidol a meddalwedd cymorth diwydiant fel rhaglenni cyfrifo maeth h.y., Nutricalc.

- Gweithredu dull cyfannol effeithlon o ailgynllunio ryseitiau bwyd a diod i fodloni gofynion maeth, oes silff a diogelwch penodol mewn cwmnïau partner, gan nodi meysydd datblygu a gwella yn unol â chanllawiau ac argymhellion cenedlaethol.

- Cydlynu cyfarfodydd prosiect yn ôl yr angen yn unol â phrotocolau'r brifysgol, gan gyfleu gwybodaeth allweddol i uwch reolwyr a chleientiaid mewn amrywiaeth o fformatau.

- Parodrwydd i ddatblygu deunyddiau hyfforddi a chyflwyno cynnwys drwy fentora, gweithdai, cyflwyno mewn digwyddiadau a chynadleddau i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd a thrwy nifer o fecanweithiau cyflwyno.

- Ymgymryd â datblygu ryseitiau ymarferol a chadarn yn y gegin, cydlynu a/neu fynychu paneli blasu, paratoi adroddiadau maethol cwsmeriaid, a chefnogi treialon graddio ffatri ar safleoedd gweithgynhyrchu cleientiaid yn ôl yr angen.

- Mae angerdd brwd dros fwyd a lles yn hanfodol ynghyd â'r gallu i gadw i fyny â'r ymchwil a'r ddeddfwriaeth faeth diweddaraf yng Nghymru, y DU, ac yn rhyngwladol.

- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r radd, y sgiliau a'r galluoedd yn ôl yr angen o bryd i'w gilydd.

- Y gallu i deithio i safleoedd cwmnïau partner gan gynnwys trwydded yrru lawn yn y DU, a pharodrwydd i aros i ffwrdd o adref o bryd i'w gilydd o bosibl.

**<u>Manyleb person</u>**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- Gradd mewn disgyblaeth wyddonol briodol a pherthnasol (h.y., Gwyddor Bwyd, Technoleg Bwyd, Maeth Bwyd neu gyfwerth).
- Wedi'i gofrestru gyda'r Gymdeithas Maeth - Maethegydd Cyswllt Cofrestredig (ANutr).

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Profiad gwaith blaenorol mewn busnes gweithgynhyrchu bwyd/diod ym meysydd Maeth, Datblygu Cynhyrchion Newydd, Ymchwil a Datblygu, a rheoli cynhyrchion o'r cysyniad i'r lansiad.

2. Gwybodaeth ymarferol o ddatblygu cynhyrchion mewn dau gategori (o leiaf) bwyd/diod.

3. Gwybodaeth ymarferol am ysgogwyr cymdeithasol, economaidd a'r farchnad cyfredol yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod (DU) mewn perthynas â maeth, iechyd a datblygu cynnyrch newydd (NPD)

4. Meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth o faeth, canllawiau maethol a gofynion dietegol arbennig gan gynnwys bod yn Uchel mewn Braster, Halen a Siwgr (HFSS), modelau proffilio maetholion, a labelu goleuadau traffig cynhyrchion bwyd a diod.

5. Gwybodaeth ymarferol am ddulliau Asesu Risg Diogelwch Cynnyrch ac adolygiad o egwyddorion HACCP sy'n cyd-fynd â dylunio a datblygu cynnyrch.

6. Gwybodaeth am asesu risg deunyddiau crai, bwydydd newydd, a ffynonellau cynhwysion.

7. Gwybodaeth ymarferol am gynhwysion swyddogaethol a'u defnyddiau wrth ailddylunio / datblygu cynnyrch, gan gynnwys y defnydd a ganiateir a chyfraddau cymhwyso.

8. Gwybodaeth ymarferol a phrofiad blaenorol o atebion digidol a chymwysiadau ym maes dylunio a datblygu cynnyrch e.e., meddalwedd cyfrifo maethol.

9. Profiad blaenorol o gynhyrchu manylebau cynnyrch a chynhyrchu a chymeradwyo labeli / gwaith celf.

10. Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol effeithiol.

11. Medrus gyda MS Office, cymwyseddau TG cyffredinol gan gynnwys defnyddio taenlenni Excel a chymwysiadau eraill.

12. Y gallu i weithio mewn dull hyblyg a rhagweithiol gan reoli nifer o brosiectau/ymholiadau ar unrhyw un adeg ac yn unol â gweithdrefnau rheoli prosiectau fel y'u nodir gan y ZERO2FIVE.

13. Sylw rhagorol i fanylion a'r gallu i gynhyrchu adroddiadau a gwybodaeth o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac i'w cyflwyno i gynulleidfa eang.

**Dymunol**

1. Profiad blaenorol o weithio o fewn sector diodydd y DU / datblygu cynhyrchion diodydd a chael gwybodaeth ymarferol amdano.

2. Cymhwyster Maeth ffurfiol h.y., BSc Maeth Bwyd.

3. Wedi cofrestru gyda'r Gymdeithas Maeth fel Maethegydd Cyswllt Cofrestredig (ANutr) neu Faethegydd Cofrestredig (RNutr), neu feddu ar aelodaeth broffesiynol berthnasol debyg (yn seiliedig ar faeth).

4. Bod â chymhwyster Diogelwch Bwyd neu HACCP Lefel 3 ffurfiol neu uwch.

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifiwr cyffredinol | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio ymadroddion bob dydd cyfarwydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth syml, uniongyrchol a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi ei hun yn y Gymraeg ar amrywiaeth o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs gyda siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn y Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig, ac mae’n bosib y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr ystyried eu cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.